**Prifysgol Bangor**
**Datganiad ar Gaethwasiaeth a Masnachu Pobl**

## Datganiad

Cymeradwywyd y Datganiad hwn ar Gaethwasiaeth a Masnachu Pobl gan y Pwyllgor Pobl a Diwylliant ar 7 Mehefin 2024 a’i adrodd i Gyngor y Brifysgol yn ei gyfarfod ar 24 Gorffennaf 2024.

Llofnod:

Swydd: Cadeirydd Cyngor y Brifysgol

---

**Mae'r datganiad hwn yn ymwneud â chamau gweithredu a gweithgareddau a gyflawnwyd yn ystod blwyddyn ariannol 01 Awst 2022 i 31 Gorffennaf 2023.**

## Rhagarweiniad

Mae Prifysgol Bangor yn cydnabod bod ganddi gyfrifoldeb i weithredu'n gadarn o ran caethwasiaeth a masnachu pobl. Mae’r diffiniad o gaethwasiaeth fodern yn eang ac yn cynnwys caethwasiaeth mewn unrhyw ffurf yn ogystal â chaethwasanaeth, llafur a orfodir a llafur gorfodol, masnachu pobl a chynaeafu organau. Yr hyn sy’n gyffredin rhwng pob un o’r rhain yw bod rhywun arall yn amddifadu unigolyn o ryddid ac ansawdd bywyd i gamfanteisio arnynt er budd personol neu fasnachol.

Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i atal caethwasiaeth a masnachu pobl yn ei gweithgareddau corfforaethol. Gan weithredu yn unol â rheoliadau Llywodraeth Cymru, ac fel y nodir yn Strategaeth Gaffael y Brifysgol, mae'r Brifysgol yn ceisio sicrhau bod ei chadwynau cyflenwi yn rhydd rhag caethwasiaeth a masnachu pobl.

## Diben

Bwriad y datganiad hwn yw bodloni gofynion Rhan 6 Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015 drwy hysbysu myfyrwyr, staff, cwmnïau a'r cyhoedd ynghylch y Brifysgol a'i pholisi o ran caethwasiaeth fodern, masnachu pobl, llafur gorfodol a rhwymedig a mynd yn groes i hawliau gweithwyr yn ei chadwynau cyflenwi. Mae'r datganiad hwn yn ymwneud â chamau gweithredu a gweithgareddau a gyflawnwyd yn ystod blwyddyn ariannol 01 Awst 2022 i 31 Gorffennaf 2023, a chamau gweithredu y bwriedir eu cyflawni yn ystod y flwyddyn ariannol 01 Awst 2023 i 31 Gorffennaf 2024.

## Strwythur y Sefydliad

Sefydlwyd Prifysgol Bangor yn 1884, o ganlyniad uniongyrchol i ymgyrch yn niwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg i gael darpariaeth addysg uwch yng Nghymru. Nodwedd bwysig o’i sefydlu oedd y cyfraniadau gwirfoddol a wnaed gan bobl leol, yn cynnwys ymysg eraill, nifer o ffermwyr a chwarelwyr nad oedd yn gallu fforddio rhoi arian ond a wnaeth hynny er gwaethaf yr anawsterau er budd cenedlaethau’r dyfodol. Mae gan Brifysgol Bangor draddodiad hirfaith o ragoriaeth academaidd, a ffocws cryf ar brofiad y myfyrwyr. Heddiw mae tua 11,000 o fyfyrwyr yn astudio yn y Brifysgol yn rhyngwladol ac mewn lleoliadau ledled gogledd Cymru a gweddill y Deyrnas Unedig, ar gampws Bangor, Porthaethwy a Wrecsam.

Mae gan y Brifysgol oddeutu 2,400 o staff, wedi'u lleoli mewn deg Ysgol Academaidd o fewn tri Choleg, sy'n cael eu cefnogi gan nifer o Wasanaethau Proffesiynol. Mae 29% o fyfyrwyr Prifysgol Bangor yn fyfyrwyr rhyngwladol, ac mae gan y Brifysgol gampws yn Changsha, Tsieina, yn ogystal â chyfleusterau addysgu mawr yn Singapore, Bahrain, ac Uzbekistan.

Mae gan y Brifysgol dau is-gwmni - Y Ganolfan Rheolaeth a Pharc Gwyddoniaeth Menai Cyf (M-SParc).

**Cenhadaeth**

Cenhadaeth Prifysgol Bangor yw bod yn:

*"Prifysgol dan arweiniad ymchwil sydd wedi ei gwreiddio yng ngogledd Cymru, sy'n ymgysylltu'n fyd-eang ac yn cynnig profiadau dysgu trawsnewidiol ac yn meithrin effaith gadarnhaol ar gymdeithas yn rhanbarthol, yn genedlaethol, ac yn rhyngwladol."*

Gellir gweld Strategaeth 2030 y Brifysgol ar wefan y Brifysgol:

https://www.bangor.ac.uk/cy/strategaeth-2030

**Ymrwymiad i Gynaliadwyedd**

Mae cynaliadwyedd wrth wraidd y Brifysgol, fel y portreadir yn ein datganiad o weledigaeth yn Strategaeth 2030:

"Prifysgol fyd-eang ei chysylltiadau, sy'n manteisio ar gyfleoedd i lwyddo trwy ymchwil ac addysgu trawsnewidiol ac arloesol sy'n seiliedig ar effaith gydag ymrwymiad i gynaliadwyedd."

Ein nod yw sicrhau y bydd ein holl fyfyrwyr yn gadael y Brifysgol fel dinasyddion byd-eang medrus, creadigol, ac amryddawn, gyda dealltwriaeth o'r heriau a'r atebion sydd eu hangen ar gyfer byd cynaliadwy a gwydn.

**Fframwaith Polisi Moesegol**

Mae'r Brifysgol wedi llunio *Fframwaith Polisi Moesegol* sy'n ymgorffori ei gwerthoedd a'i dulliau gweithredu ac sy'n berthnasol i holl staff, myfyrwyr, ac aelodau'r Cyngor. Yn ogystal mae ganddi bolisi ar y ffordd mae'r Brifysgol yn cynnal ei busnes.

Mae'r Fframwaith i'w gael ar wefan y Brifysgol:

https://www.bangor.ac.uk/governance-and-compliance/documents/Ethical_Policy_Framework_November_2021_version_Cymraeg.pdf

Mae'r Brifysgol yn ceisio cadw at y safonau moesegol uchaf wrth weithio i gyflawni ei chenhadaeth a gweithredu ei chynllun strategol. Amcan y ddogfen hon yw amlinellu fframwaith sy'n diffinio safonau'r Brifysgol yn gyffredinol. Cydnabyddir bod gan unigolion wahanol safbwyntiau ar faterion moesegol.

**Busnes a Chadwynau Cyflenwi**

Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i gael nwyddau a gwasanaethau heb achosi niwed i eraill. Mae cadwynau cyflenwi'r Brifysgol yn dod dan bum prif gategori yn bennaf, sef:

Nwyddau Traul ac Offer
Adnoddau'r Llyfrgell
Gwasanaethau Proffesiynol

Gwasanaethau a Chyfarpar Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu
Gwasanaethau a Nwyddau Ystadau

Mae ein hasesiad parhaus yn dangos mai'r prif feysydd gwariant y mae risgiau o bwys yn gysylltiedig â hwy yw cyflenwadau swyddfa, nwyddau traul i labordai, cyfarpar technoleg gwybodaeth a chyfathrebu, ac adeiladu.

Mae'r Brifysgol yn aelod o'r Northwestern Universities Purchasing Consortium, sy'n prynu nwyddau i sefydliadau addysg uwch yn y Deyrnas Unedig. Mae llawer o gyflenwyr yn cael eu gwirio drwy'r Net Positives Supplier Engagement Tool, sy'n rhoi sylw'n rhannol i ofynion y Ddeddf Caethwasiaeth Fodern.

Prynir cyfarpar technoleg gwybodaeth drwy'r London Universities Purchasing Consortium, sy'n aelod o Electronics Watch. Sefydliad monitro annibynnol yw hwnnw sy'n gweithio i sicrhau parch i hawliau gweithwyr yn y diwydiant electroneg byd-eang drwy brynu cyfarpar at ddefnydd cyhoeddus yn Ewrop mewn ffordd gyfrifol yn gymdeithasol.

Mae Prifysgol Bangor yn aelod cyswllt o Electronics Watch trwy ei haelodaeth o'r Northwestern Universities Purchasing Consortium. Mae aelodaeth uniongyrchol yn rhoi mynediad i adroddiadau monitro cyfrinachol a phecynnau cymorth i gynorthwyo i gyflawni nodau cymdeithasol gyfrifol y Brifysgol.

Mabwysiadodd y Brifysgol God Ymarfer Llywodraeth Cymru ar Gyflogaeth Foesegol mewn Cadwynau Cyflenwi. Mae'r Cod wedi'i gynllunio i sicrhau bod gweithwyr yng nghadwynau cyflenwi'r sector cyhoeddus yn cael eu cyflogi'n foesegol ac yn unol â chyfreithiau'r Deyrnas Unedig, yr Undeb Ewropeaidd, a chyfreithiau rhyngwladol. Mae'r Cod yn ymdrin â nifer o faterion cyflogaeth, gan gynnwys caethwasiaeth fodern a mynd yn groes i hawliau dynol.

**Asesiad Risg**

Mae'r Brifysgol wedi ystyried risg caethwasiaeth fodern a masnachu pobl i'w busnes a'i chadwynau cyflenwi. Fel yn natganiad y llynedd, cydnabyddir y bydd y risg yn amrywio'n fawr ac y bydd yn newid, ond nad oes unrhyw faes neu sefydliad heb elfen o risg. Ar ôl cymryd i ystyriaeth waith a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn academaidd ddiwethaf, fel yr amlinellir isod, credir bod Prifysgol Bangor yn parhau ar hyn o bryd mewn categori risg isel. Er y dylid cadw golwg gyson ar hyn, bydd y Brifysgol yn gweithredu'n barhaus yn ôl gofynion y Ddeddf ar sail y ffaith hon.

Y ffactorau perthnasol a ystyriwyd yn yr asesiad risg hwn yw:

1. Mae uwch-aelodau staff yn y Gwasanaethau Cyllid, Gwasanaethau Llywodraethu, Adnoddau Dynol a'r Gwasanaeth Cefnogi Ymchwil ac Effaith Integredig yn parhau i fonitro gofynion y Ddeddf a sicrhau bod mesurau priodol yn cael eu cymryd.

2. Mae prosesau recriwtio Adnoddau Dynol yn parhau i sicrhau y gweithredir prosesau cadarn mewn perthynas â'r Ddeddf yn achos staff a gyflogir yn uniongyrchol, a lle caiff staff dros dro eu recriwtio drwy asiantaethau mae'r rhain yn gwmnïau wedi eu hachredu a all roi sicrwydd i'r Brifysgol eu bod yn cydymffurfio'n llawn â gofynion y Ddeddf.

3. Mae'r Brifysgol yn parhau i anelu at y safonau moesegol uchaf wrth weithio i gyflawni ei chenhadaeth a gweithredu ei chynllun strategol.
4. Mae polisïau allweddol wedi'u sefydlu, ac maent wedi'u diweddaru yn ystod y flwyddyn lle bo angen:-

- Strategaeth Caffael
- Fframwaith Polisi Moesegol

- Cynllun Cydraddoldeb Strategol
- Polisi Buddsoddi Moesegol
- Polisi Datgelu er Lles y Cyhoedd (Chwythu'r Chwiban)
- Polisi Atal Llwgrwobrwyo
- Strategaeth Cynaliadwyedd

5. Ar gontractau mwy, mae'n ofynnol i gyflenwyr ddatgan a ydynt wedi torri ymrwymiadau ym meysydd cyfraith amgylcheddol, cyfraith gymdeithasol, a chyfraith llafur a gofynnir iddynt sut y maent yn sicrhau nad ydynt hwy na'u cadwynau cyflenwi yn gysylltiedig ag unrhyw elfennau o gaethwasiaeth fodern.

6. Lle mae Bangor yn datblygu partneriaethau ymchwil a chydweithrediadau newydd trwy ymchwil a ariennir, mae'r Brifysgol yn dilyn proses UK Research and Innovation (UKRI) gan ddefnyddio eu holiadur diwydrwydd dyladwy. Mae'n cynnwys adran lle mae'r Brifysgol yn gwirio a oes gan bartneriaid ddeddfwriaeth a pholisïau tebyg i'r Deyrnas Unedig mewn perthynas â chyfreithiau llafur lleol a Deddf Caethwasiaeth Fodern y Deyrnas Unedig.

**Ein cynlluniau at y dyfodol**

Fel rhan o'r drefn adrodd hon eleni ac yn y blynyddoedd i ddod, mae Prifysgol Bangor yn cadarnhau ei hymrwymiad i ddatblygu, gwella a gweithio tuag at fwy o eglurder a chyfrifoldeb tuag at bobl mewn perthynas â chaethwasiaeth a masnachu pobl.  Gwneir hyn yn arbennig o ran ei chadwynau cyflenwi ac unrhyw ran o'i busnes.

Bydd amcanion allweddol ar gyfer y flwyddyn i ddod yn cynnwys:

a) Parhau i roi hyfforddiant penodol i aelodau allweddol o'r staff fel rhan o hyfforddiant ehangach ar gaffael er mwyn codi ymwybyddiaeth o gaethwasiaeth fodern a masnachu pobl.

b) Parhau i weithio tuag at ddeall cadwynau cyflenwi'r Brifysgol yn well ac i sicrhau mwy o eglurder a chyfrifoldeb dros y rhai sy'n gweithio ynddynt.

c) Sicrhau bod y Datganiad hwn yn cael ei arddangos mewn lle amlwg ar wefan y Brifysgol.

d) Parhau i gydweithio gyda'r staff a'r myfyrwyr, a'u cynnwys, ac ymgysylltu ag Undeb y Myfyrwyr Bangor ac Undebau Llafur y Campws.

Er mwyn datblygu dealltwriaeth fwy cynhwysfawr o risgiau caethwasiaeth fodern a masnachu pobl yng nghadwynau cyflenwi'r Brifysgol, rydym wedi datblygu pecyn hyfforddi staff wedi'i deilwra i'w gyflwyno gan Arweinwyr Uniondeb Ymchwil / Gwasanaethau Llywodraethu. Ein nod hefyd yw darparu Hyfforddiant Caethwasiaeth Fodern i reolwyr contractau allweddol ym maes caffael, ac ymchwilio a oes gweminarau ar gael gan bartneriaid cyfreithiol i hyfforddi arweinwyr uniondeb ymchwil yr Ysgolion.

**Bangor University**
**Slavery and Human Trafficking Statement**

## Statement

This Slavery and Human Trafficking Statement was approved by the People & Culture Committee on 7 June 2024 and reported to the University Council at its meeting on 24 July 2024

Signed:

Position: Chair of the University Council

---

**This statement relates to actions and activities undertaken during the financial year 01 August 2022 to 31 July 2023.**

## Introduction

Bangor University recognises that it has a responsibility to take a robust approach to slavery and human trafficking. The definition of modern slavery is broad ranging and includes slavery in any form as well as servitude, forced and compulsory labour, human trafficking and organ harvesting. These all have in common the deprivation of a person's liberty and quality of life by another to exploit them for personal or commercial gain.

The University is committed to preventing slavery and human trafficking in its corporate activities. Operating in line with the regulations from the Welsh Government, and as set out in the University’s Procurement Strategy, the University seeks to ensure that its supply chains are free from slavery and human trafficking.

## Purpose

This Statement is designed to satisfy the requirements of Part 6 of the Modern Slavery Act 2015 by informing students, staff, companies and the public about the University and its policy with respect to modern slavery, human trafficking forced and bonded labour and labour rights violations in its supply chains. This statement relates to actions and activities undertaken during the financial year 01 August 2022 to 31 July 2023, and to planned actions for the financial year 01 August 2023 to 31 July 2024.

## Organisational Structure.

Bangor University was founded, in 1884, as a direct result of a campaign in the late nineteenth century for higher education provision in Wales. An important feature of its foundation was the voluntary contributions made by local people, including amongst others, many farmers and quarrymen who could ill afford to donate money but did so despite the difficulties in order to benefit future generations. Bangor has had a long tradition of academic excellence and a strong focus on the student experience. Today around 11,000 students study at the University both internationally and at locations across North Wales and the rest of the UK with campuses in Bangor, Menai Bridge and Wrexham.

Cyhoeddus - Public

It has approximately 2,400 staff, based in ten Academic Schools within three Colleges, and supported by a number of Professional Services. 29% of Bangor University students are International Students, and the University has a campus in Changsha, China, as well as major teaching facilities in Singapore, Bahrain, and Uzbekistan

The University has two subsidiary companies – The Management Centre and Menai Science Park Ltd (MSParc).

**Mission**

The mission of Bangor University is to be:

*"A globally engaged, research-led university rooted in North Wales, providing transformative learning experiences and nurturing a positive impact on society regionally, nationally and globally."*

The University's Strategy 2030 can be accessed from the University website:

https://www.bangor.ac.uk/strategy-2030

**Commitment to Sustainability**

Sustainability is at the heart of the University, as portrayed in our vision statement contained within Strategy 2030:

"A globally connected University, realising opportunities for success through transformative, innovative, impact-driven research and teaching, with a commitment to sustainability."

We aim to ensure that all our students leave the University as capable, creative, and well-rounded global citizens with an understanding of the challenges and solutions required for a sustainable, resilient world.

**Ethical Policy Framework**

The University has in place an *Ethical Policy Framework* which embodies its values in principles and practice, applying to all staff, students, and members of Council, as well as policies which govern how the University conducts its business.

The Framework can be accessed from the University website:

https://www.bangor.ac.uk/governance-and-compliance/documents/Ethical_Policy_Framework_November_2021_version.pdf

The University seeks to adhere to the highest ethical standards in working to achieve its mission and implement its strategic plan. The aim of this document is to outline a framework which defines the University's standards in general terms. It is acknowledged that individuals hold diverse views on ethical matters.

**Business and Supply Chains**

The University is committed to acquiring goods and services without causing harm to others. The University's supply chains mainly fall under five super-categories, which are:

Consumables and Equipment
Library Resources
Professional Services
ICT Equipment and Services

Estates Goods and Services

Our ongoing assessment is that the principal areas of expenditure which carry material risks are office supplies, laboratory consumables, ICT equipment, and construction.

The University is a member of the Northwestern Universities Purchasing Consortium which procures products for UK higher education institution. Many suppliers are subject to checks via the Net Positives Supplier Engagement Tool, which partly addresses the requirements of the Modern Slavery Act.

IT Equipment is purchased via the London Universities Purchasing Consortium, who are a member of Electronics Watch, an independent monitoring organisation working to achieve respect for labour rights in the global electronics industry through socially responsible public purchasing in Europe.

Bangor University is a Consortium Affiliate of Electronics Watch via its membership of the Northwestern Universities Purchasing Consortium. Direct membership provides access toconfidential monitoring reports and toolkits to assist in achieving the University's socially responsiblegoals.

The University has signed up to the Welsh Government's Code of Practice on Ethical Employment in Supply Chains. The Code is designed to ensure that workers in public sector supply chains are employed ethically and in compliance with both the letter and spirit of UK, EU, and international laws. The Code covers a number of employment issues, including modern slavery and human rights abuses.

**Risk Assessment**

The University has considered the risk of modern slavery and trafficking to its business and supply chains. As in the previous year's statement it is acknowledged that the risk will vary greatly and will change, but that no area or institution is risk free. Having taken into account work undertaken during the last academic year, as outlined below it is believed that Bangor University currently remains in a low-risk category and, whilst this should be kept under review, the continued approach taken by the University to its requirements under the Act will be informed by this fact.

The relevant factors considered in this risk assessment are that: -

1. Senior staff in Finance, Governance Services, Human Resources and the Integrated Research and Impact Support Service continue to monitor the requirements of the Act and ensure that appropriate measures are being undertaken.

2. Human Resources recruitment processes continue to ensure that, for directly employed staff robust process are in place in relation to the Act, and where temporary staff are recruited through agencies these are established and accredited companies who can provide the University with assurances that they fully comply with the requirements of the Act.

3. The University continues to seek the highest ethical standards in working to achieve its mission and implement its strategic plan.
4. Key Policies are in place, and have been updated during the year wherenecessary: -

    - Procurement Strategy
    - Ethical Policy Framework
    - Strategic Equality Plan
    - Ethical Investment Policy
    - Public Interest Disclosure (Whistleblowing) Policy

- Anti-Bribery Policy
- Sustainability Strategy

5. On larger contracts, suppliers are required to declare whether they have violated obligations in the fields of environmental, social, and labour law and are asked how they ensure that neither they or nor their supply chains are engaged in any elements of modernslavery.

6. Where Bangor is developing new research partnerships and collaborations through funded research, the university follows the UK Research and Innovation (UKRI) process using their due diligence questionnaire. This has a section where the University checks whether partners have similar legislation and policies as the UK around local labour laws and the UK Modern Slavery Act.

**Our plans for the future**

As part of this reporting exercise in this and the coming years, Bangor University affirms its commitment to evolve, improve and work towards a greater transparency and responsibility towards people in relation to slavery and human trafficking. This will be with particular reference to its supply chains and any part of its business.

Key objectives for the coming year will include:

a) Continued targeted training for key members of staff as part of wider procurement training in order to raise awareness of modern slavery and trafficking.

b) Continue to work towards a better understanding of the University's supply chains and towards greater transparency and responsibility for those working on them.

c) Ensure that this Statement is prominently displayed on the University's website.

d) Continue to collaborate with and involve staffand students and engage with Bangor Students' Union and the Campus Trades' Unions.

To develop a more comprehensive understanding of the modern slavery and human trafficking risks in the University's supply chains, we have developed a tailor-made staff training package to be delivered by Governance Services / Research Integrity Leads. We also aim to deliver Modern Slavery Training to key contract managers in procurement and investigate the availability of webinars from legal partners for training School research integrity leads.